



# Arolwg Eiriolaeth yn ystod Coronafeirws 2021



# 1 Cyflwyniad

Ym mis Mehefin 2020, cynhaliwyd arolwg o eiriolwyr er mwyn casglu tystiolaeth am effeithiau pandemig y Coronafeirws. Gwnaeth yr arolwg arwain at yr adroddiad ‘Valuing Voices in Wales: Protecting Rights Through the Pandemic and Beyond’<sup>1</sup>.

Blwyddyn wedi'r arolwg, mae'r sector eiriolaeth yng Nghymru yn casglu tystiolaeth am effaith y pandemig ar bobl sydd: â hawl i dderbyn eiriolaeth, hygyrchedd ac ansawdd eiriolaeth, a darpariaeth eiriolaeth gan wasanaethau. Ceisiodd yr arolwg yn 2021 ddeall beth oedd wedi newid yn ystod y flwyddyn yn y cyfamser, yr heriau presennol, a beth wnaeth weithio'n dda wrth ymateb i'r pandemig.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau allweddol gan y 47 eiriolwr a wnaeth gwblhau'r arolwg. Mae'r adroddiad yn darparu rhywfaint o gyd-destun ychwanegol am y canfyddiadau hyn. Daw'r adroddiad i ben drwy grynhoi'r prif ganfyddiadau a'r meysydd allweddol y mae eiriolwyr yn teimlo bod angen iddynt newid er mwyn gwella'r sefyllfa i gleientiaid, eiriolwyr a gwasanaethau yn ystod y pandemig a thu hwnt i hynny.



<sup>1</sup>[Valuing Voices in Wales: Protecting Rights Through the Pandemic and Beyond report](#)

## 2 Torri hawliau parhaol a diffyg cydymffurfio wedi 12 mis

### 2.1 Methiannau hawliau dynol

Dyweddodd 85% o'r eiriolwyr a holwyd bod hawliau dynol y bobl y maent yn eu cefnogi naill ai ddim yn cael eu cynnal o gwbl neu'n cael eu cynnal yn rhannol yn unig. Roedd y lefel hyn yn debyg i'r lefel a fynegwyd yn 2020.

Darparodd ymatebwyr i arolwg 2021 ddigon o enghreifftiau o sut roedd hawliau dynol yn cael eu torri. Dywedodd yr atebwyr:

“Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod hawliau yn cael eu cynnal ond rydym yn gwybod am lawer o enghreifftiau o benderfyniadau cyffredinol, gwrandawiadau o bell, dim cyswllt â gweithwyr proffesiynol allweddol sydd yn golygu nad yw hawliau wedi cael eu cynnal yn gyffredinol. Mae rhai cleientiaid wedi profi prosesau gwneud penderfyniadau cyflym lle nad yw eu dymuniadau ac ati o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol wedi cael eu hystyried.”

“.. mae wedi bod yn arbennig o anodd i'r cleientiaid hynny sydd yn yr ysbyty, sydd wedi profi bod eu mynediad at ymwelwyr wedi cael ei atal.”

“Roedd dewisiadau cyfyngedig ar gael o ran gofal a chefnogaeth ar gyfer cleientiaid.”

“mae...’oherwydd Covid-19’ wedi dod yn esgus dros beidio â chynnal hawliau dynol person, hyd yn oed ar adegau pan fo lefelau heintio a chyfyngu cymunedol yn isel.”

### 2.2 Risgiau diogelu

Gwnaeth bron i chwarter yr eiriolwyr adroddiad am atgyfeiriad diogelu sy'n gysylltiedig â Covid-19 yn ystod y 12 mis diwethaf.

Dyweddodd eiriolwyr y bu cynnydd mewn atgyfeiriadau amddiffyn plant, cam-drin domestig a rheolaeth drwy orfodaeth yn benodol. Cyfeiriwyd at amrywiaeth o faterion cam-drin sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, pobl sydd methu cael mynediad at wasanaethau cymorth yn hawdd, cam-drin domestig ac achosion o esgeuluso mewn cartrefi gofal.

“Mae pobl wedi profi llawer mwy o niwed oherwydd diffyg mynediad i wasanaethau oherwydd cyfyngiadau Covid.”

Roedd pryderon yn canolbwyntio ar absenoldeb y gwasanaethau cymorth arferol, neu fod y gwasanaethau hynny yn cael eu cynnal o bell, a sut yr effeithiodd hynny ar ba mor agored i niwed yw pobl sydd mewn perygl o ddiodef camdriniaeth.

“Roeddwn i'n gweithio ar ran cleient a dim ond y gwasanaeth eiriolaeth oedd yn mynd i mewn i'w gweld - gwnaeth hi ddatgeliad am gam-drin domestig i mi. Wedi iddi gytuno, gweithredais fel ei bod hi bellach mewn sefyllfa ddiogel, ac nid yw hi bellach mewn perygl.”

Y peth pwysig i ddeall am y sefyllfa hon yw pa mor bwysig yw cymorth wyneb yn wyneb i bobl, a'r cyfleoedd cyfyngedig sydd yno i amddiffyn pobl rhag niwed neu gamdriniaeth wrth weithio o bell.

## 2.3 Penderfyniadau cyffredinol

Nododd ymatebwyr lefel uchel benderfyniadau cyffredinol ar hyd ystod eang o faterion allweddol, ac roedd arwyddion nad oedd hyn wedi gwella dros y 12 mis diwethaf er gwaethaf y ffaith fod lefelau is o gyfyngiadau. Yn wir, mae arwyddion bod y sefyllfa fymryn yn waeth nag a nodwyd yn 2020.

Dywedodd bron 30% o eiriolwyr eu bod wedi nodi gorchmynion cyffredinol 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol', sy'n gwneud cais i dorri'r gofynion ar gyfer gwneud penderfyniadau unigol ar ôl ymgynghori'n briodol â'r person ac aelodau o'r teulu.


"Mae Covid yn cael ei ddefnyddio fel esgus i beidio cynnwys y person."

"Nid yw gweithwyr proffesiynol eraill wedi bod ar gael mor aml ag y gallent."

"Mae penderfyniadau cyffredinol ynghylch gwrandawiadau o bell yn fater mawr sy'n parhau i achosi anfantais enfawr i nifer fawr o bobl rydym yn eu cefnogi."

Mae wedi cymryd tan fis Medi 2021, bron i 18 mis yn ddiweddarach, i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru gynnig fideo-gynadledda peilot i bobl sy'n ceisio apelio yn erbyn cael eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (1983).

Mae'r tabl isod yn dangos yr ymatebion i'r cwestiwn "A yw penderfyniadau cyffredinol yn dal i gael eu gweithredu ar gyfer y bobl rydych yn eu cefnogi"?



### 3 Materion a phryderon ar ôl 12 mis

Er gwaethaf y ffaith bod Cymru wedi llwyddo i oroesi'r pandemig, mae pryderon eiriolwyr a'r materion sydd ar lefel uchel yn parhau ac, mewn rhai achosion, wedi cynyddu. O'i gymharu â'r arolwg gwreiddiol a gynhaliwyd yn 2020, mae pryderon wedi cynyddu ar gyfer pobl sydd angen cael mynediad at wasanaethau, pobl sydd wedi dioddef gyda'u hiechyd meddwl yn ystod y pandemig, a materion amlwg iawn o ynysu cymdeithasol, diffyg cyswllt â theulu a ffrindiau, pryderon am ail-ymuno â chymdeithas a'r pwysau sydd wedi'i roi ar ofalwyr di-dâl / anffurfiol.

Pryder penodol yn awr, fel yn 2020, yw'r dirywiad yn iechyd meddwl pobl yn ystod y pandemig sydd wedi cynyddu o 83% i 88%. Mae pryderon iechyd meddwl yn cael eu gweld mewn llawer o achosion hyd yn oed os nad dyma'r symptom cychwynnol. Mae cleientiaid yn ei chael hi'n anodd cael gafaél ar wasanaethau iechyd meddwl priodol, neu nid ydynt yn gwybod pwy i gysylltu â nhw am gymorth ac mae'r rhai sy'n gweithredu o dan bwysau aruthrol oherwydd y cynnydd mewn achosion sy'n dod drwodd.

Mae pryderon am ynysu cymdeithasol hefyd yn cynyddu ac ochr yn ochr â hyn mae'r pryderon am y diffyg cyswllt y mae rhai pobl yn dal i'w gael gyda theulu a ffrindiau. Mae pryderon yn cael eu nodi ynghylch ailymuno â chymdeithas yn dilyn cyfnod mor hir o gyfyngiadau ac arwahanrwydd.

- **Mae pryderon am ynysu cymdeithasol wedi cynyddu i 87%**
- **Mae diffyg cyswllt â theulu a ffrindiau yn parhau i fod yn uchel ar 70%**
- **Mae pryder ynghylch ailymuno â chymdeithas yn cael ei raddio ar 62%.**


Mae diffyg mynediad at apwyntiadau meddygol wedi codi'n sylweddol o'r tro diwethaf o 53% i 77%. Mae hyn yn peri llawer o gwestiynau, o faterion sy'n ymwneud â chael apwyntiad meddyg teulu wyneb yn wyneb a'r heriau y bydd llawer yn eu hwynebu wrth wneud pethau dros y ffôn neu alwad fideo, i'r goblygiadau ar gyfer cyflyrau meddygol tymor hwy, cyflyrau cronig neu ddifrifol, gyda'r hyn yr adroddir ei fod yn ôl-groniad mewn apwyntiadau ysbyty. Rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed sydd angen yr apwyntiadau hyn fydd hefyd y rhai sydd angen eiriolwr, ac mae'n bwysig i wasanaethau iechyd sicrhau eu bod yn cyfeirio at eiriolaeth fel y gall pobl leisio eu barn a chael mynediad at y gwasanaethau hanfodol hyn.

Mae pryderon ychwanegol a godwyd y tro hwn yn cynnwys cynnydd o ran cefnogi rhieni drwy achosion amddiffyn plant (45%), a gwrandawiadau llys ond yn cael eu clywed o bell yn unig; adroddwyd am hynny gan bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (60%).

12 mis yn ddiweddarach, mae dros 50% o eiriolwyr yn parhau i bryderu am drefniadau rhyddhau o'r ysbyty a llai o fynediad at wasanaethau personol. Mae diffyg pecynnau gofal, a diffyg cymorth i adael gwelyau ysbyty yn dangos bod llawer o waith i'w wneud o hyd i oresgyn yr holl faterion a nodwyd yn ystod y pandemig.

Fodd bynnag, mae'n galonogol gweld bod pryderon eiriolwyr wedi gostwng yn sylweddol ynghylch bod eu cleientiaid yn cael cymorth eiriolaeth wyneb yn wyneb. Mae'r pryder hwn wedi gostwng o 88% i 42%. Mae llawer o ddarparwyr eiriolaeth, lle bo hynny'n ddiogel ac yn briodol i wneud hynny, bellach yn darparu eiriolaeth wyneb yn wyneb ac mae hyn wedi'i drafod gan Rhwydwaith Eiriolaeth Genedlaethol Cymru o ran risg a sut i'w oresgyn. Mae rhai gwasanaethau'n dal i ddarparu cymorth o bell dros y ffôn neu drwy fideo, ond maent yn adolygu hynny'n gyson.

## Mae'r tabl isod yn dangos yr ymatebion i'r cwestiwn "Beth yw eich pryderon presennol am y bobl rydych yn eu cefnogi a'u cynrychioli?"



### 3.1 Y 10 prif fater

Gofynnodd yr arolwg i eiriolwyr nodi'r tri phrif fater yr oeddent yn cefnogi pobl â hwy. Mae'r canfyddiadau'n dangos yr heriau sydd yn wynebu'r gymdeithas yng Nghymru wrth i ni ddod allan o'r pandemig, ac maent yn dangos faint o waith sydd i'w wneud o hyd i'r rhai mwyaf agored i niwed.

1 Achosion amddiffyn plant

2 Gostyngiad mynediad at wasanaethau

3 Llety

4 Mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl

5 Rhyddhau o'r ysbyty

6 Dyletswyddau ariannol

7 Apelau neu gwynion yn erbyn y Bwrdd Iechyd ac Awdurdodau Lleol

8 Ynysu neu bryder am ailymuno â chymdeithas

9 Dydy'r gwasanaethau ddim yn gwrando ar farn pobl

10 Penderfyniadau ynghylch triniaeth feddygol



## 4 Effaith pandemig y Coronafeirws ar ddarparu gwasanaethau eiriolaeth

### 4.1 Mwy o atgyfeiriadau

Adroddodd Gwerthfawrogi Lleisiau yng Nghymru 2020 yn ystod cyfnod cynnar y pandemig bod gwasanaethau wedi profi gostyngiad sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau, gydag 89% o eiriolwyr yn adrodd am lai o atgyfeiriadau yn ystod y pandemig, na chyn y pandemig.

Y rheswm mwyaf arwyddocaol am hyn oedd y ffaith nad oedd sefydliadau eiriolaeth yn gallu cael gafael ar y bobl y byddent fel arfer yn eu cefnogi, er enghraifft cartrefi gofal a lleoliadau ysbytai, oherwydd effaith y cyfyngiadau symud a'r cyfyngiadau ar ymweliadau wyneb yn wyneb a osodir gan leoliadau.

12 mis yn ddiweddarach, mae 54% o'r rhai a holwyd yn dweud bod atgyfeiriadau wedi cynyddu i fod yn ôl i'r lefelau yr oeddent cyn y pandemig, yn enwedig mewn lleoliadau cymunedol, ac roedd 17% yn teimlo eu bod o leiaf wedi dychwelyd i'r un lefel â chyn Covid-19. Dim ond 4% o bobl a ganfu fod nifer gyffredinol y bobl sy'n cael eu cyfeirio at eiriolaeth wedi gostwng.

Mae hyn yn effeithio ar wasanaethau a oedd eisoes dan bwysau ac, er nad oes cyllid ychwanegol, maent bellach yn profi lefelau uwch o atgyfeirio a gweithgarwch.

### 4.2 Dull cyfunol o gwrdd â chleientiaid

Wedi gwelliant sylweddol ar ganlyniadau arolwg 2020, yn 2021 dywedodd 92% o'r holl eiriolwyr eu bod ond yn gweld y bobl y maent yn eu cefnogi wyneb yn wyneb, neu gyda chymysgedd o wyneb yn wyneb ac opsiynau rhithwir eraill. 12 mis yn gynharach dim ond 22% o eiriolwyr a oedd yn gallu gweld pobl wyneb yn wyneb.

Mae dychwelyd i weithio wyneb yn wyneb, gan gynnwys gwneud hynny yn ystod cyfnodau clo dilynol, wedi bod yn bosib drwy argymhell natur hanfodol y rôl gyda gweithwyr proffesiynol eraill/ lleoliadau, asesiadau risg, gweithdrefn waith diogel a mynediad at gyfarpar diogelu personol. Roedd cymeradwyaeth y sectorau o Egwyddorion Gweithredu'r Gwasanaethau Eiriolaeth o fudd. Mae'n gofyn i sefydliadau sy'n darparu eiriolaeth ymrwymo i safle diofyn o eiriolaeth wyneb yn wyneb.

### 4.3 Gwella effeithiolrwydd

Yn 2020, teimlai 78% o eiriolwyr fod effeithiolrwydd cyffredinol eu darpariaeth eiriolaeth wedi gostwng yn ystod pandemig y Coronafeirws. Yn 2021, dangosodd y sefyllfa welliant cymharol gyda 55% o eiriolwyr yn sôn am ostyngiad yn eu heffeithiolrwydd. Nodwyd bod hyn yn rhannol oherwydd eu bod methu darparu eiriolaeth wyneb yn wyneb, problemau yn ymwneud gyda thechnoleg a gwasanaethau eraill, a lleoliadau nad oeddent yn hygyrch. Dywedodd llawer o'r eiriolwyr hynny fod eu heffeithiolrwydd wedi dechrau cynyddu unwaith gwnaeth y cyfarfodydd wyneb yn wyneb ailddechrau.



“Fe wnaethom addasu ein gwasanaeth i ddarparu gwasanaeth rhithwir ynghanol y pandemig dros y ffôn, fideo (Microsoft Teams yn bennaf), e-bost a neges destun. Nid oedd hyn mor effeithiol â chwrrd â phobl wyneb yn wyneb ond gwnaethom gynnal gwasanaeth di-dor drwy gydol y pandemig.”

“Mor effeithiol ag y gall fod heb weld cleientiaid wyneb yn wyneb. Dywedodd y staff nad oes ganddynt berthynas cystal â chleientiaid, ond eu bod yn medru cwblhau'r gwaith.”

Dywedodd tua 30% o eiriolwyr fod eu darpariaeth eiriolaeth wedi bod yn effeithiol iawn yn ystod pandemig y Coronafeirws. Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod wedi cefnogi mwy o bobl oherwydd nad oeddent yn gorfod teithio cymaint i weld cleientiaid. Roedd bod yn greadigol ac yn hyblyg wedi galluogi nifer o eiriolwyr i addasu'n well i'r sefyllfa ac o ganlyniad roeddent wedi gweithredu dulliau amgen o gefnogi pobl a arweiniodd at fwy o effeithiolrwydd.

Nododd hanner yr eiriolwyr brofiadau cymysg gan y cleientiaid yr oeddent yn eu cefnogi. Roedd cael gafael ar gymorth rhithwir/yn ddigidol yn fwy buddiol i rai nag eraill. Er gwaethaf yr heriau, roedd nifer o gleientiaid wedi dweud eu bod yn dal i deimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, a'u bod yn medru lleisio'u barn yn ystod y broses o wneud penderfyniadau hyd yn oed heb gyswllt wyneb yn wyneb. Dywedodd llawer o'r eiriolwyr hynny fod cleientiaid wedi croesawu gallu cynnig ystod ehangach o ddulliau cyfathrebu, ac roedd yn well ganddynt gyfathrebu'n rhithwir neu drwy ddulliau digidol gan eu bod yn ofni dal Covid.

“Mae adborth wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan, ond rwy'n teimlo mai cleientiaid nad oes ganddynt y gallu i gyfarwyddo eiriolwr yw'r rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf, gan nad ydym yn gallu darllen iaith y corff, cyfathrebu drwy ddulliau rhithwir gyda llawer ohonynt.”

Dywedodd tua 25% o eiriolwyr fod eu cleientiaid yn teimlo bod derbyn cymorth eiriolaeth annibynnol rithwir/yn ddigidol wedi bod yn effeithiol iawn yn ystod pandemig y Coronafeirws. Roedd hyn o'i gymharu â 10% o eiriolwyr oedd â chleientiaid a oedd yn teimlo nad oedd y gefnogaeth yn effeithiol o gwbl.

#### 4.4 Llesiant eiriolwyr yn dirywio

Dangosodd Gwerthfawrogi Lleisiau yng Nghymru 2020 fod ychydig o dan hanner (44%) yr eiriolwyr yn teimlo bod eu llesiant wedi gwaethygu. Yn 2021, roedd y sefyllfa wedi dirywio ymhellach i lawer, gyda mwyafrif helaeth o'r eiriolwyr yn dweud bod eirioli drwy bandemig y Coronafeirws wedi cael effaith negyddol ar eu llesiant eu hunain. Nododd dros 75% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo dan straen, yn bryderus, yn rhwystredig, yn aneffeithiol a/neu wedi blino oherwydd eu profiadau. Dywedodd llawer fod mwy o lwyth gwaith, a bod teimlo'n unig ar wahân wrth eu cydweithwyr, cleientiaid a gweithwyr proffesiynol wedi gwaethygu'r teimladau hynny.

“Mwy o straen oherwydd nifer y llwythi achosion.”

“Rhwystredig a siomedig ynglŷn â sut mae'r pandemig wedi cael ei ddefnyddio gan wasanaethau eraill fel esgus i ddatgysylltu.”

“Wedi gweld eisiau cwmni cydweithwyr i drafod achosion heriol. Dydy hi ddim yr un peth i wneud hyn dros y rhyngwyd.”

I lai na 10% o eiriolwyr, roedd y profiadau o gefnogi pobl drwy bandemig y Coronafeirws wedi arwain at wella llesiant. I'r rhai hynny, roedd gweithio gartref a pheidio gorfod teithio i'w gweithle wedi gwella'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

## 5 Symud ymlaen

### 5.1 Dulliau hyblyg

Gan fod pob gwasanaeth wedi gorfod addasu yn ystod y pandemig, gofynnodd yr arolwg i eiriolwyr ledled Cymru beth oedd wedi gweithio'n dda, a beth yr hoffent ei weld yn parhau yn y dyfodol.

Roedd cychwyn y cyfnod clo ar 23 Mawrth 2020 yn golygu bod yn rhaid i wasanaethau eiriolaeth ailystyried eu model darparu o fod yn wasanaeth wyneb yn wyneb yn bennaf i wasanaeth mwy rhithwir. Roedd llawer o'r rhai a ymatebodd yn cytuno bod gorfod gweithio o bell yn golygu bod angen ehangu'r ystod o ddulliau cyfathrebu sydd eu hangen i ymgysylltu â phobl.

Dangosodd y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig y bydd symud ymlaen â'r opsiwn diodyn o weithredu wyneb yn wyneb yn parhau ar gyfer cyfarfodydd cychwynol ond bydd llwyfannau cyfathrebu amrywiol megis cyfarfodydd fideo, ffôn, negeseuon testun, e-byst neu ddulliau eraill yn cael eu defnyddio'n fwy aml yn y dyfodol ar gyfer trafodaethau a chyfarfodydd dilynol. Efallai y bydd angen cyllid a hyfforddiant ychwanegol i sicrhau y gall yr holl wasanaethau eiriolaeth ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf.

“Galwadau ffôn a galwadau rhithwir - trafodwch gyda'r cleient os ydyn nhw'n hapus i gael un cyfarfod wyneb yn wyneb, ac yna i gynnal eiriolaeth bellach dros y ffôn neu gan ddefnyddio cyfarfodydd rhithwir.”

Thema gyffredin ymhlith yr ymatebion yn yr arolwg oedd bod gweithio ar lwyfannau fel Zoom neu Microsoft Teams wedi helpu i leihau amser teithio i gyfarfodydd. Canfu ei bod yn haws trefnu

cyfarfod â gweithwyr proffesiynol ar lwyfannau rhithwir, ac arweiniodd hyn at well presenoldeb hefyd.

“Mae cyfarfodydd proffesiynol yn haws i'w trefnu drwy Microsoft Teams / Zoom oherwydd bod pawb methu bod yn yr un lleoliad.”

Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod gweithio gartref yn gwella eu cynhyrchiant, yn enwedig wrth wneud gwaith gweinyddol. Cefnogir y canfyddiad hwn gan ymchwil a wnaed gan Microsoft a ganfu fod gweithwyr yn arbed 35 munud y dydd ar gyfartaledd wrth weithio gartref oherwydd llai o wrthdyniadau <https://hstalks.com/bm/p/1086/> ond roedd rhai ymatebwyr hefyd yn cydnabod bod cydbwysedd rhwng gweithio gartref a gweithio yn y swyddfa yn ddymunol.

Roedd consensws ymhlith eiriolwyr y bydd asesiadau risg cyn cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn parhau i fod yn beth arferol ar gyfer y dyfodol rhagweladwy yn ogystal â Phroffion Llif Unffordd rheolaidd a gwisgo cyfarpar diogelu personol.

Gwnaeth nifer bwysleisio nad yw pob defnyddiwr gwasanaeth yn medru, neu eisiau defnyddio llwyfannau digidol ac felly mae gweithio gyda phartneriaid i nodi lleoliad diogel yn y gymuned i hwyluso cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn hanfodol.

I lawer o eiriolwyr, mae angen dysgu am yr agwedd positif a'r agwedd negatif o weithio yn ystod cyfnod Covid. Er enghraifft, does dim angen cyfarfod wyneb yn wyneb bob tro, ond ni ddylai technoleg eu disodli yn gyfan gwbl chwaith.

## 5.2 Gobeithion a phryderon

Roedd rhai'n teimlo bod proffil eiriolaeth wedi cynyddu yn ystod y pandemig a bod eiriolwyr *'wedi dangos ein gwerth absoliwt yn ystod y cyfnod hwn'* ac y bydd hyn yn arwain at *'fwy o gydnabyddiaeth o'r gwaith a wnawn'*.

Ond roedd gan lawer o'r ymatebwyr bryderon ynglŷn ag ymwybyddiaeth am y gwasanaeth, ariannu eiriolaeth statudol ac anstatudol yn y dyfodol a'r gallu i gadw staff o safon.

O ran codi ymwybyddiaeth, mae astudiaethau mor bell yn ôl â 2012 wedi tynnu sylw at yr angen i wella ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth eiriolaeth. Mae'r ymateb i'r arolwg hwn yn dangos bod diffyg ymwybyddiaeth o hyd, sy'n arwain at ddiffyg gwybodaeth ymhlith llawer o weithwyr proffesiynol o ran swyddogaeth eiriolaeth gan arwain at:

“Ni wahoddir eiriolwyr i gyfarfodydd mewn da bryd.”

“Mae pryderon difrifol ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth, yn enwedig ymhlith gweithwyr proffesiynol, am hawliau pobl.”

“Mae cleientiaid yn cael eu cyfeirio (at eiriolaeth) yn rhy hwyr.”

“Nid yw eiriolaeth yn cael ei hyrwyddo ar lefelau cynradd a chymunedol ac nid yw lleisiau unigolion yn cael eu clywed fel y dylent.”

Dywedodd llawer hefyd fod diffyg cyllid contract wedi bod dros y blynnyddoedd sy'n rhoi pwysau ar wasanaethau eiriolaeth:

“Wrth i ni ddod allan o'r cyfnod clo, mae mwy a mwy o bobl yn dymuno cael mynediad i'n gwasanaethau. Bydd hyn yn rhoi galw mawr ar ein gwasanaeth sydd eisoes dan bwysau.”

Dywedodd nifer o ymatebwyr eu bod yn gobeithio, wrth symud ymlaen, fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod eiriolwyr yn weithwyr allweddol yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae angen cefnogi hyn gan gyllid digonol a all ganiatáu cynnydd mewn lefelau cyflog sy'n cydnabod y safonau proffesiynol a ddisgwylir gan eiriolwr drwy hyfforddiant.

Argymhellodd astudiaeth a gomisiynwyd 20 mlynedd yn ôl gan yr Adran Iechyd, sef Adroddiad Durham ar Eiriolaeth Arbenigol Annibynnol yng Nghymru a Lloegr: Argymhellion ar gyfer Arfer Da gan Di Barnes a Toby Brandon gyda Tricia Webb, y dylai eiriolwr arbenigol fod ar bwyntiau 29-32 y Cydgyngor Cenedlaethol. Bryd hynny roedd hynny yn £19,770-£21,700; heddiw mae hynny'n cyfateb i £32,910 - £35,745.

## 6 Casgliadau

Ar y cyfan, teimlai eiriolwyr a ymatebodd i'r arolwg hwn eu bod wedi darparu gwasanaeth rhagorol i'r rhai a oedd wir ei angen yn ystod y pandemig. Mae eiriolwyr wedi dod yn greadigol yn y ffordd y maent yn gweithio, ac wedi croesawu ffyrdd newydd o weithio ac opsiynau cyfathrebu amgen. Bydd rhai dulliau yn parhau ar ôl y pandemig, gyda dulliau hyblyg o ddiwallu anghenion y cleient yn y ffordd orau. Mae Covid-19 wedi tynnu sylw at faint o bobl sydd wedi'u hynysu, a faint o bobl fregus nad oedd yn cael eu cyrraedd cyn y pandemig, a bod mwy fyth o angen nawr nag erioed o'r blaen am wasanaethau eiriolaeth.

Mae nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau eiriolaeth wedi dychwelyd i'r lefelau a oeddent cyn Covid-19 a thu hwnt. Er ei fod yn gydnabyddiaeth i'w groesawu o ran pwysigrwydd eiriolaeth, mae hefyd yn effeithio ar wasanaethau a oedd eisoes dan straen, ac nad ydynt wedi cael unrhyw arian ychwanegol. Er bod y rhan fwyaf o eiriolwyr yn teimlo bod eu heffeithiolrwydd wedi gwella, teimlai'r mwyafrif llethol fod eu llesiant eu hunain wedi dirywio.

Mae methiannau hawliau dynol, materion diogelu, gwneud penderfyniadau cyffredinol a'r rhan fwyaf o'r materion a adroddwyd yn 2020 yr un mor arwyddocaol os nad yn fwy felly 12 mis yn ddiweddarach. Mae'r effaith ar lesiant cleientiaid wedi'i gwaethygu gan y diffyg pecynnau gofal a diffyg cymorth gan wasanaethau eraill.

### **Mae'r rhestr ganlynol yn adlewyrchu meysydd allweddol y mae eiriolwyr yn teimlo bod angen iddynt newid er mwyn gwella'r sefyllfa i gleientiaid, eiriolwyr a gwasanaethau drwy gydol y pandemig a thu hwnt.**

- Sicrhau bod hawliau cyfreithiol pobl i gael eiriolaeth yn cael eu gorfodi.
- Mae angen gwell dealltwriaeth o hawliau dynol a chyfraith ddomestig ymhlith gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau bod achosion o dorri'r hawliau yn cael eu hosgoi.
- Mwy o ymwybyddiaeth o eiriolaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol eraill ynghyd â hyfforddiant i hwyluso hyn.
- Mwy o arian i ateb y galw cynyddol.
- Mae angen defnyddio'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i Oedolion i gyd-gynhyrchu gwasanaethau eiriolaeth.
- Caiff eiriolwyr eu cydnabod yn fwy cyson gan Lywodraeth Cymru fel gweithwyr rheng flaen, gyda'r hawl i gael mynediad at y Cynllun Cydnabod Gofal Cymdeithasol (Covid-19).
- Mwy o fynediad i'r gwasanaethau cymorth a oedd yn bodoli cyn y pandemig.
- Bydd effaith mwy o gyfranogiad gan eiriolwyr oedolion mewn achosion gofal plant yn cael ei gydnabod a'i gynnwys mewn cytundebau ariannu yn y dyfodol.
- Bydd amrywiaeth ehangach o becynnau gofal ar waith i gefnogi pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty.
- Cyhoeddir Cod Ymarfer Trefniadau Amddiffyn Rhyddid sydd yn adlewyrchu'r angen cynyddol botensial am eiriolwyr.

